# Swyddog Marchnata ac Allgymorth, Canolfan Ffilm Cymru

| | |
|---|---|
| **Adran:** | Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) |
| **Teitl Swydd:** | Swyddog Marchnata ac Allgymorth |
| **Graddfa:** | £26,353 |
| **Cytundeb:** | Mehefin 2024 – 31 Mawrth 2026, gyda'r potensial i ymestyn, yn amodol ar gadarnhad o gyllid blynyddol. (yn amodol ar gyfnod prawf o 3 mis) |
| **Oriau:** | 40 awr yr wythnos (TOIL). Mae peth gwaith gyda'r nos ac ar benwythnosau yn angenrheidiol i'r swydd |
| **Lleoliad:** | Hybrid. Un - dau ddiwrnod swyddfa yr wythnos yn Chapter,Caerdydd, gyda'r opsiwn ar gyfer gweithio gartref. |
| **Atebol i:** | Rheolwraig Strategol, Canolfan Ffilm Cymru |
| **Atebol am:** | Dim adroddiadau uniongyrchol. Arolygu interniaid a staff dros dro yn achlysurol |

## Diben y Swydd

Cefnogi'r Ganolfan a'i haelodau[1] i ddatblygu cynulleidfaoedd ar gyfer sinema annibynnol Brydeinig a rhyngwladol, a hynny ledled Cymru, drwy waith marchnata ac allgymorth. Mae hyn yn cynnwys prosiect 'spotlight' penodol yng Ngogledd Cymru a marchnata B i B o gyfleoedd i aelodaeth y Ganolfan.

## Am Ganolfan Ffilm Cymru

Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn ariannu, hyfforddi a chynghori sefydliadau sy'n sgrinio ffilm yng Nghymru, o wyliau ffilm i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros 300 o arddangoswyr ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru a'r DU. Rydym yn rhan o rwydwaith o wyth canolfan ledled y DU sy'n cael eu hariannu gan y Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) sy'n ffurfio'r

[1] Mae Canolfan Ffilm Cymru yn gweithio gydag aelodau ar draws Cymru. Mae aelodau yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gymdeithasau ffilm, sinemau cymunedol, gwyliau ffilm, sinemau masnachol annibynnol, darparwyr digwyddiadau/pop-yp, archifau, darparwyr/sefydliadau addysg ffilm, darlledwyr, dosbarthwyr ffilm, amlblethiadau a chyrff celfyddydau/heb fod yn ffilm ehangach.

Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN), ac mae Chapter ydy ‘Corff Arweiniol Canolfannau Ffilm yng Nghymru.

Roedd Canolfan Ffilm Cymru yn falch o arwain y Strategaeth Sinema Gynhwysol ar ran BFI FAN 2018-23.

## Am Chapter

Canolfan ryngwladol ar gyfer diwylliant a chelfyddydau cyfoes yw Chapter, sydd â’i gwreiddiau yng Nghaerdydd. Ers dros hanner can mlynedd, mae wedi bod yn sbardun ar gyfer creadigrwydd a meddwl beirniadol, gan gefnogi artistiaid a chynulleidfaoedd i ffynnu ac i gymryd risgiau. Rydyn ni’n credu bod gan gelf y grym i’n cysylltu ni i gyd.

Rydyn ni’n ganolfan ddeinamig sy’n cynhyrchu ac yn hyrwyddo gwaith dyfeisgar a chymhellol. Ar draws celf weledol, perfformiadau a ffilm, rydyn ni’n cyflwyno rhaglen arbrofol, atgofus a beiddgar o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

Ochr yn ochr â’n rhaglen celfyddydau cyhoeddus yn ein horiel, ein theatrau a’n sinemâu, rydyn ni’n gweithio y tu ôl i’r llen i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus, gan gysylltu’n ddwfn gydag ymarferwyr creadigol i gefnogi eu llwybrau gyrfa.

Rydyn ni hefyd yn gartref creadigol i 52 o artistiaid a chwmnïau sydd wedi’u lleoli yn ein stiwdios, gan gynnig gofodau ar gyfer gwledd o ddosbarthiadau wythnosol a misol, ac yn gweithredu caffi bar prysur sy’n ofod bywiog yng nghanol ein canolfan.

Caiff ein rhaglen ei dathlu’n rhyngwladol, ond mae ein rôl fel canolfan leol yr un mor bwysig. Rydyn ni’n gweithio gyda, ac ar gyfer, y bobl ar garreg ein drws, i greu profiadau cymhellol a thrawsnewidiol wrth gysylltu celf gyda chymuned.

Rydyn ni’n credu yng ngrym y celfyddydau i drawsnewid bywydau ac I hyrwyddo llesiant personol a chymdeithasol. Rydyn ni’n ymdrechu I sicrhau bod ein lleoliad a’n rhaglen yn hygyrch i bawb, ac rydyn ni’n croesawu tua 500,000 o bobl drwy ein drysau bob blwyddyn.

## Ein hymgeisydd delfrydol

Rydym yn chwilio am rhywun creadigol, sy'n angerddol dros alluogi cymunedau Cymru i ddarganfod straeon o bob cwr o'r byd, yn eu sinema leol.  Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn awyddus i ofalu am ofodau sinema annibynnol ar gyfer cenhedloedd y dyfodol.

Mae angen i chi fod yn gyfathrebwr hyderus, sydd heb ofn cychwyn neu

herio sgwrs ond sydd hefyd yn gallu gwrando, parchu ac ymateb i anghenion ein partneriaid a’r cymunedau dan eu gofal. Dylai’ch bod chi’n gallu dethol straeon o bwys ac yn mwynhau amlygu’r straeon hyn i gynulleidfaoedd. Yn ddelfrydol, dylech fod â phrofiad o farchnata B i B, er mwyn cefnogi cyfathrebu beunyddiol y Ganolfan.

Mae'n rhaid i chi ddod â sgiliau marchnata ymarferol a gweinyddu prosiectau i'r rôl, sy'n golygu llygad craff am fanylion a dylunio. Gan weithio o fewn tîm bach ar brosiect cenedlaethol, rhaid i chi fod yn gyfforddus wrth reoli eich amser o bell. Dylech fod yn hyderus yn eich gallu eich hun i ddatrys problemau a threfnu eich llwyth gwaith.

## Cyfrifoldebau a thasgau allweddol

- Cefnogi aelodau'r Ganolfan gyda syniadau allgymorth, i hyrwyddo eu dangosiadau ffilm, gan gynnwys cefnogaeth ddwys ar gyfer prosiect 'sbotlight' yng Ngogledd Cymru,
- Hyrwyddo gweithrediadau o ddydd i ddydd (B-B) y Ganolfan, gan gynnwys galwadau cyllido, cyfleoedd hyfforddi a gweithgareddau ehangach,
- Ymgysylltu ag aelodau mewn digwyddiadau’r Ganolfan ac ymweliadau â lleoliadau, meithrin partneriaethau a dysgu am arddangosfeydd ffilm / cynulleidfaoedd yng Nghymru,
- Monitro gweithgareddau aelodau'r Ganolfan a diweddaru dogfennau cynllunio mewnol,
- Ysgrifennu copi8 ar gyfer ar-lein a/neu'r wasg,
- Diweddaru gwefan Canolfan Ffilm Cymru, gan ychwanegu cynnwys fel tudalennau ffilm newydd,
- Creu asedau digidol fel cylchlythyrau, asedau cyfryngau cymdeithasol a ffeithluniau,
- Golygu llun/fideo,
- Rheoli cyfryngau cymdeithasol Canolfan Ffilm Cymru (Facebook, X, Instagram a Vimeo),
- Cysylltu â'r tîm marchnata yn Chapter i gefnogi rhannu gwybodaeth.

### Amrywiol

- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy’n ofynnol yn rhesymol gan Reolwr Strategol Canolfan Ffilm Cymru neu Brif Weithredwr Chapter.
- Ymgyfarwyddo â phob agwedd berthnasol o Iechyd a Diogelwch, gweithrediadol, personel, gofal cwsmer, Diogelu Data ac ariannol,

gan sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r holl rwymedigaethau statudol, yn enwedig mewn perthynas â deddfau trwyddedu a chymorth cyntaf,
- Rhaid cyflawni dyletswyddau deiliad y swydd bob amser mewn cydymffurfiaeth gyda pholisi Cyfle Cyfartal Chapter gan sicrhau cyfle cyfartal i bob person yn fewnol ac yn allanol i Chapter.

**Amodau Arbennig**

- Oriau gweithio hyblyg sy'n cynnwys gweithio ar benwythnosau/gyda'r nos a pheth deithio ar draws Cymru. Byddwn yn hyblyg er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr hynny sydd ag anghenion hygyrchedd / sy'n galw am gymorth gofalwr, yn cael eu cefnogi,
- Anogir ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol i ddod â'u profiad i'r rôl ac i feithrin dealltwriaeth ehangach oddi mewn i dîm Canolfan Ffilm Cymru a'r FAN ehangach.

**Dydy'r disgrifiad swydd yma ddim wedi'i fwriadu i fod yn gyflawn. Fe fydd disgwyl i ddeiliad y swydd fabwysiadu ymagwedd hyblyg tuag at ddyletswyddau all fod yn amrywiol (yn dilyn trafodaeth gyda deiliad y swydd) yn amodol i anghenion y corff, ac yn unol â phroffil cyffredinol y swydd.**

# Manyleb y Person

Fel swyddog marchnata ac allgymorth CFfC bydd angen i chi ddangos y cymwyseddau canlynol:

**Sgiliau/gallu hanfodol**

- Cymwysterau sy'n berthnasol i farchnata a/neu allgymorth, neu brofiad gwaith cyfatebol, yn ddelfrydol mewn amgylchedd arddangosfa/celfyddydau ffilm,
- Profiad o weithio ym maes marchnata a/neu allgymorth, yn ddelfrydol mewn amgylchedd arddangos ffilm/amgylchedd celfyddydol,
- Profiad gweinyddu prosiect,
- Profiad o ddiweddaru platfformau'r we megis WordPress,
- Profiad o greu gwaith graffeg ar gyfer ei ddefnyddio ar-lein,
- Y gallu i reoli platfformau cyfryngau cymdeithasol,
- Llythrennedd cyfrifiadurol gyda phrofiad o becynnau Microsoft Office Suite gan gynnwys Excel a Word.
- Y gallu i ysgrifennu copi ar gyfer y wasg ac ar-lein,
- Cyfathrebwr clir a hyderus, A clear and confident communicator,

gallu i greu partneriaethau,

- Meddyliwr creadigol
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac yn annibynnol, gan aros yn ddigynnwrf dan bwysau,
- Trefnus iawn gyda'r gallu i flaenoriaethu, cyrraedd amcanion a gweithio i ddyddiad cau,
- Yn meddu ar gymhelliad cryf, yn hyblyg ac yn medru addasu.

**Dymunol**

- Dealltwriaeth o'r rhwystrau mae cymunedau a/neu unigolion o gymunedau lleiafrifol yn eu hwynebu wrth gael mynediad,
- Profiad o ymgysylltu â'r wasg a'r cyfryngau,
- Gwybodaeth dda o ffilmiau Prydeinig annibynnol a rhyngwladol,
- Profiad o weithio ar brosiect ar raddfa debyg gydag amryw o bartneriaid ac ardaloedd,
- Sgiliau golygu fideo a / neu lluniau,
- Cyfathrebwr Cymraeg.

**Manteision**

Rydyn ni'n gyflogwr ymlaciol a chyfeillgar, ac yn cynnig oriau gweithio hyblyg a gweithio hybrid. Mae'r manteision i staff yn cynnwys:

- 5.6 wythnos o wyliau y flwyddyn, gan gynnwys gwyliau banc, pro rata ar gyfer swyddi rhan amser.
- Dau docyn sinema am ddim y mis
- Cinio am ddim pan fyddwch yn gweithio yn yr adeilad
- 20% oddi ar fwyd a diod yn y caffi bar
- Cynllun Cymraeg Gwaith
- Cynllun pensiwn cyfrannol, a byddwch yn cael eich ymrestru iddo'n awtomatig (yn dibynnu ar amodau'r cynllun). Mae'r cynllun yn eich galluogi i gynilo ar gyfer eich ymddeoliad gan ddefnyddio eich arian eich hunan, ynghyd â rhyddhad treth a chyfraniadau gan y cwmni
- Tâl mamolaeth a mabwysiadu uwch ar ôl blwyddyn o wasanaeth.
- Mynediad at Raglen Cynorthwyo Gweithwyr
- Te/coffi am ddim
- Cefnogaeth ar gyfer datblygiad parhaus
- Gofal Llygaid ar gyfer Cyfarpar Sgrin Arddangos
- Rheseli beiciau diogel
- Parcio i staff
- Digwyddiadau cymdeithasol i staff

## Ceisiadau

Fe fydd y rhestr fer ar gyfer cyfweliadau yn seiliedig ar ymgeiswyr yn diwallu'r meini prawf hanfodol a restrir yn y swydd ddisgrifiad.

**Deliwch gyda phob pwynt yn unigol yn eich cais os gwelwch yn dda gan roi enghreifftiau.**

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Mercher 8 Mai, 10am**

Fe fyddwn yn cysylltu gyda'r ymgeiswyr ar y rhestr fer erbyn dydd 10 Mai a chynhelir y cyfweliadau ar Dydd Mawrth 14 Mai unai yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter, Caerdydd. Yn ddelfrydol, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cychwyn yn y swydd ar unwaith ond gallwn fod yn hyblyg er mwyn cefnogi'r ymgeisydd.

Anfonwch eich cais, yn cynnwys enwau a rhif ff ôn dau ganolwr at apply@chapter.org Ni allwn dderbyn CVs.

Ni fyddwn yn gallu cyfarfod gydag ymgeiswyr unigol cyn y cyfweliad.